## YR ATODLEN

### Arbed

**1.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed i Bennod 3 o Ran 5 o Ddeddf Tai 1996 (b) gan adran 13 yn effeithiol mewn perthynas ag —

(a) unrhyw gais am waharddeb o dan adran 152, neu unrhyw gais y mae adran 153 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo, ac a ddyroddwyd cyn y dyddiad cychwyn; neu

(b) unrhyw waharddeb a roddir yn unol â'r cais hwnnw; neu

(c) unrhyw bwer arestio sydd ynghlwm wrth unrhyw ddarpariaeth merwn gwaharddeb; neu

(ch) unrhyw orchymyn llys arall a roddir, neu achos sy'n codi, mewn cysylltiad â'r cais hwnnw neu'r waharddeb honno.

**2.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed i Ddeddf Tai 1985(**1**) a Deddf Tai 1988(**2**) gan adran 16 yn effeithiol mewn perthynas ag unrhyw achos meddiannu ty annedd a ddechreuwyd cyn y dyddiad cychwyn.

**3.** Ni fydd adran 91 yn effeithiol mewn perthynas ag—

(a) unrhyw gais am waharddeb o dan adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**3**) a ddyroddwyd cyn y dyddiad cychwyn;

(b) unrhyw waharddeb a roddir yn unol â'r cais hwnnw.

(**1**) 1985 p.68.
(**2**) 1988 p.50.
(**3**) 1972 p.70 .